Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

# Systemau Gwybodeg GIG Cymru

Tachwedd 2018



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddArchwilio@assembly.wales**
Twitter: **@SeneddArchwilo**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

# Systemau Gwybodeg GIG Cymru

Tachwedd 2018

www.cynulliad.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 22 Mehefin 2016 i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.2 and 18.3 ac ystyried unrhyw fater arall yn ymwneud â pha mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y cafodd adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Nick Ramsay AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Mohammad Asghar AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



**Neil Hamilton AC**
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Rhianon Passmore AC**
Llafur Cymru
Islwyn



**Adam Price AC**
Plaid Cymru
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr



**Jenny Rathbone AC**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



**Jack Sargeant AC**
Llafur Cymru
Alun a Glannau Dyfrdwy

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Vikki Howells AC**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Lee Waters AC**
Llafur Cymru
Llanelli

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... 5

**Argymhellion** .......... 7

**1. Cyflwyniad** .......... 8

**2. Canfyddiadau'r Pwyllgor** .......... 11

# Rhagair y Cadeirydd

Yn 2003, nid oedd yr iPhone wedi'i ddyfeisio eto ac nid oedd gwasanaeth Gmail Google na Skype yn boblogaidd eto. Yn yr un flwyddyn hon y lansiwyd y strategaeth Hysbysu Gofal Iechyd, gyda chofnod cleifion electronig yng Nghymru yn ganolog iddi. Nid yn unig y mae arloesiadau technolegol eraill y flwyddyn honno wedi cael eu gwireddu, ond maent wedi neidio yn eu blaenau sawl gwaith, ac eto mae GIG Cymru yn dal i fod ymhell i ffwrdd o borth electronig di-dor ar gyfer cofnodion cleifion.

Mae'r ffaith bod GIG Cymru yn dal i gyfeirio at ei raglen ddigidol fel "Gwybodeg" yn arwyddocaol o ba mor hen ffasiwn yw ei ddull. Datgelodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Systemau Gwybodeg GIG Cymru, a gwrandawiadau dilynol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, lawer o broblemau. Mae llawer o'u prosiectau digidol ar ei hôl hi, ac mae rhai yn cyd-fynd â'r amserlen dim ond gan fod eu hamserlenni wedi cael eu had-drefnu er mwyn dangos eu bod ar y trywydd iawn. Mae llinellau atebolrwydd yn aneglur, ceir anfodlonrwydd eang ar draws y GIG gyda'i berfformiad, ac yn ystod chwe mis cyntaf eleni yn unig mae ei brif systemau wedi methu 21 o weithiau. Ac eto dywedodd y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am gynnal Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru bod ei uchelgeisiau ymhlith goreuon y byd.

Credwn fod Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn canolbwyntio'n bennaf ar redeg systemau TG sy'n rhy hen. Ar adeg pan fo potensial gofal iechyd digidol yn dal y dychymyg ac yn gwella canlyniadau cleifion, dim ond 10% o weithgareddau Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru sy'n canolbwyntio ar arloesi.

Mae ein hymchwiliad wedi codi cwestiynau difrifol am gymhwysedd, gallu a chapasiti ar draws y system iechyd i gyflawni gweddnewidiad digidol yng ngofal iechyd Cymru. Ac eto canfuwyd diwylliant o hunan-sensoriaeth a diarddeliad ymhlith y rhai sy'n gyfrifol am fwrw ymlaen â'r agenda - yng Ngwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ei hun yn ogystal â'i bartneriaid yn y byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru.

Er gwaethaf y methiant eglur i gyflawni, canfu'r Archwilydd Cyffredinol fod Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn "or-gadarnhaol" wrth adrodd ar gynnydd. Er i Lywodraeth Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru dderbyn holl argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, prin oedd y rhesymau a ganfuwyd gennym i fod yn optimistaidd bod pethau'n newid. Hyderwn y bydd ein hymchwiliad a'r adroddiad hwn yn rhybudd eglur i bawb sy'n ymwneud â

harneisio grym arloesedd digidol i wella gofal iechyd yng Nghymru. Credwn ei bod hi'n amser ailgychwyn.

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod y Pwyllgor yn derbyn diweddariadau chwe misol gan Lywodraeth Cymru ar gynnydd wrth weithredu'r argymhellion digidol yn yr Adolygiad Seneddol ac adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn ein galluogi i ailystyried y materion hyn yn ddiweddarach. .................................. Tudalen 12

**Argymhelliad 2.** Roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu'n fawr am y dystiolaeth a glywsom ar fethiannau systemau, seilwaith a chydnerthedd. O ystyried tystiolaeth ddiweddar o fethiannau pellach ers i ni dderbyn tystiolaeth, hoffem gael sicrwydd pellach gan Lywodraeth Cymru bod y systemau yn gadarn. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno amserlen eglur ar gyfer sefydlogi seilwaith digidol GIG Cymru. ............................................ Tudalen 12

**Argymhelliad 3.** Yn y trafodaethau ar y defnydd o gyfrifiadura Cwmwl ac effaith methiannau diweddar, roedd yn peri pryder mawr iawn, pan ymddengys bod gan lawer o systemau defnyddwyr berfformiad ac amser gweithredol cadarn, bod GIG Cymru yn cael trafferth yn rhedeg ei ganolfannau data ei hun gydag 21 o fethiannau yn ystod 6 mis cyntaf 2018 - un methiant bob 9 diwrnod. Mae'r Pwyllgor yn argymell adolygiad o'r gallu uwch arweinyddiaeth o ran set sgiliau a llywodraethu yng Ngwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Thîm Digidol ehangach y GIG. ............................................ Tudalen 13

**Argymhelliad 4.** Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi'i or-ymestyn ar hyn o bryd, ac mae gwella yn golygu llawer mwy na thywallt mwy o arian i mewn i'r sefydliad presennol, sy'n annhebygol o gyflawni canlyniadau sylweddol wahanol. Rydym yn argymell y dylai unrhyw gyllid ychwanegol a ddyrennir i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru fod yn gysylltiedig ag ad-drefnu i gyflawni'r gwelliannau sy'n ofynnol. ............................................ Tudalen 16

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn ceisio cynyddu ei waith gyda chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys y rhai o Lywodraeth y DU. Gallai'r dull hwn weithio ar nifer o lefelau, o rannu arferion recriwtio da i greu Gwasanaeth Digidol Llywodraeth a allai weithio ar draws asiantaethau lluosog. ............................................ Tudalen 21

# 1. Cyflwyniad

**1.** Gall systemau gwybodeg helpu'r GIG i ddarparu gwell canlyniadau i gleifion a gwneud defnydd effeithlon o adnoddau ariannol a dynol. Mae Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a chyrff y GIG yn cydweithio i ddarparu systemau gwybodeg ar gyfer y GIG. Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) ei adroddiad ar systemau gwybodeg yn GIG Cymru ar 10 Ionawr 2018. Mae'r adroddiad yn ystyried a all GIG Cymru sicrhau'r manteision a fwriedir o'i fuddsoddiad mewn gwasanaethau TGCh clinigol wedi'u diweddaru. Canolbwyntiodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar chwe system benodol fel dangosyddion o'r dull ehangach o ymdrin â gwybodeg:

- Systemau radioleg (RADIS a'r Gwasanaethau Archifo Lluniau – PACS)
- System labordy (System Rheoli Gwybodaeth Labordy Cymru – WLIMS)
- Myrddin – y brif system gweinyddu cleifion
- Systemau yn y gymuned - Fy Iechyd Ar-lein (system meddygon teulu ar gyfer apwyntiadau a phresgripsiynau amlroddadwy) a Dewis Fferyllfa

**2.** Daw adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad y bu cryn oedi yn y ddarpariaeth er gwaethaf ffaith bod y weledigaeth ar gyfer cofnod cleifion electronig yn eglur a bod elfennau allweddol ar waith. Bu rhai datblygiadau pwysig yn ystod cyfnod yr adolygiad, ond ceir rhai gwendidau allweddol o hyd mewn trefniadau i gefnogi a goruchwylio'r ddarpariaeth ac i sicrhau bod y systemau yn sicrhau'r manteision a fwriedir. Mae'r GIG wedi nodi yn ddiweddar y bydd angen cyllid ychwanegol sylweddol i wireddu'r weledigaeth, ond mae gofyn gwneud rhagor o waith ar y cynlluniau manwl a chadarnhau'r trefniadau ariannu.

**3.** Wrth gyhoeddi'r adroddiad, pwysleisiodd yr Archwilydd Cyffredinol:

> "Bydd rhoi'r weledigaeth o gofnod cleifion electronig ar waith yn golygu y bydd angen i bob rhan o'r GIG, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, wneud penderfyniadau anodd, yn enwedig o ran cyllido, blaenoriaethu a galluogi clinigwyr i gael amser a lle i arwain yr agenda hon. Oni bai ei fod yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn fy adroddiad, mae yna berygl y bydd y GIG yn wynebu mwy o rwystredigaeth ymhlith staff y

rheng flaen, ac, yn y pen draw, yn meddu ar systemau a fydd eisoes yn hen ffasiwn erbyn iddynt gael eu cwblhau."[1]

**4.** Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio ymateb gân dderbyn pob un o'r 13 o argymhellion. Cyhoeddodd yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei adroddiad ar 16 Ionawr 2018. Gwnaed cyfres o argymhellion yn yr adolygiad, â rhai ohonynt yn berthnasol i wybodeg. Mae prif negeseuon yr Adolygiad Seneddol, a'r rhai yn ymwneud ag egluro strategaeth, blaenoriaethau a threfniadau llywodraethu yn benodol, yn cyd-fynd â'r rhai yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.

**5.** Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i systemau gwybodeg yn GIG Cymru, ac i gynnwys sylw i'r materion canlynol:

- Swyddogaeth arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru o ran gwybodeg yn GIG Cymru, gan gynnwys, er enghraifft, sicrhau bod cyrff GIG yn cytuno ar yr hyn y mae "Unwaith i Gymru" yn ei olygu yn ymarferol.
- Y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddeall yn well y costau o wireddu ei gweledigaeth ar gyfer gwybodeg a sut y gellid ariannu hynny o ystyried y duedd ar i lawr o ran gwariant ar TGCh a'r amcangyfrif £484 miliwn o gost gwireddu'r weledigaeth ar gyfer gwybodeg yn ychwanegol i gyllidebau presennol.
- Rhychwant yr adnoddau a'r buddsoddiad ar lefel leol.
- Effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yng ngoleuni pryderon a nodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ac argymhellion yr Adolygiad Seneddol i ddod â chyrff fel Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru o dan swyddogaeth Gweithrediaeth GIG Cymru ganolog gryfach.
- Arweinyddiaeth leol, gan gynnwys arweinyddiaeth glinigol, a safbwyntiau ar y ffactorau sy'n arafu'r gwaith o gyflwyno'r cofnod cleifion electronig.
- Heriau gweithlu, gan gynnwys recriwtio a chadw arbenigwyr TGCh.
- Sicrhau mwy o eglurder ynghylch a yw'r manteision a fwriadwyd o fuddsoddiad yn cael eu gwireddu.

**6.** Mae'r Pwyllgor hefyd wedi nodi pryderon ynghylch y ddarpariaeth o systemau gwybodeg yn rhan o'i waith ar reoli meddyginiaethau. Mae hefyd wedi

[1] Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol Cymru: Systemau Gwybodeg yn GIG Cymru, Ionawr 2018

codi pryderon ynghylch y ddarpariaeth o Ddatrysiad TG Maeth ac Arlwyaeth Cenedlaethol (NNCIS) a System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS). Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth bellach gan Lywodraeth Cymru o ran y ddwy system hyn ar 12 Mawrth 2018.

**7.** Yn ystod ein hymchwiliad, ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol atom ni ynglŷn â phryderon am fethiannau TGCh yng nghyrff y GIG. Roedd ei lythyr yn cynnwys papur bwrdd a ystyriwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre, yn tynnu sylw at bryderon am fethiannau systemau gwybodeg cenedlaethol – CaNISC, y system ganser, ac WLIMS. O ystyried difrifoldeb y materion, penderfynodd y Pwyllgor ymestyn cwmpas ei ymchwiliad i dderbyn rhagor o dystiolaeth ar fethiannau systemau a seilwaith.

**8.** Nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio ailadrodd y dystiolaeth ysgrifenedig a llafar helaeth a dderbyniwyd gennym ac yn hytrach mae'n cyflwyno safbwyntiau'r Pwyllgor ar y materion allweddol a ystyriwyd gennym. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar a'r dystiolaeth ysgrifenedig a dderbyniwyd ar gael yn llawn yn:
http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=20803

# 2. Canfyddiadau'r Pwyllgor

## Safbwyntiau cyffredinol

**9.** Mae gweddnewid digidol yn gofyn am ddiwylliant agored, a chanfu'r Pwyllgor bod diwylliant Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn wrthgyferbyniad llwyr i hyn. Rydym yn pryderu'n arbennig am y diffyg natur agored a thryloyw tybiedig ar draws y system gyfan. Nododd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol batrwm bod y sefydliad yn "or-gadarnhaol" wrth adrodd ar ei gynnydd. Canfu gwaith casglu tystiolaeth y Pwyllgor enghreifftiau o hyn dro ar ôl tro. Mae'n bryder mawr ei bod yn ymddangos y meddylfryd hwn yn gyson â meddylfryd y byrddau iechyd, a thimau Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ochr yn ochr â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, oherwydd i'r Pwyllgor ganfod amharodrwydd cyfunol i drafod yn agored y sefyllfa wirioneddol o ran cynnydd.

**10.** Canfuwyd gennym fod tystion yn amharod i fod yn feirniadol o gynnydd neu drefniadau ar y cofnod. Roedd rhywfaint o dystiolaeth ysgrifenedig o ddwy ran o'r GIG yn hynod debyg a gadawyd y Pwyllgor o dan yr argraff ein bod ni'n cael safbwynt a baratowyd ymlaen llaw. O ganlyniad, prin yw'r hyder y gallai fod gan y Pwyllgor yn llawer o'r sicrwydd a roddwyd i ni gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Llywodraeth Cymru.

**11.** Os yw'r problemau gyda gwybodeg y GIG yn mynd i gael sylw, yna mae angen myfyrdod agored a gonest ar y sefyllfa bresennol a'r rhwystrau i gynnydd yn hanfodol. Yn wir, mae'n gwbl bosibl bod y diwylliant hwn wedi atal y Pwyllgor rhag clywed amrywiaeth gynhwysfawr o faterion a phroblemau – yn gryno, rydym yn dal i fod yn ansicr ynghylch maint y problemau.

**12.** Rydym yn pryderu nad yw'r GIG yn gwbl barod o hyd i gydnabod yn agored faint a dyfnder y problemau. Mae'r Pwyllgor yn bryderus y gallai'r broblem ddiwylliannol hon fod yn cuddio problemau ehangach a dyfnach na ddatgelwyd gennym. Credwn fod angen newid sylfaenol i ymddygiad gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a thîm Digidol ehangach y GIG os yw cynnydd yn mynd i gael ei wneud.

**13.** Ar y cyfan, mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn am gyflymder araf y ddarpariaeth o systemau gwybodeg modern ar draws y GIG yng Nghymru a'r gwendidau sylfaenol mewn trefniadau cymorth a goruchwylio. Mae'n amlwg nad oes neb yn hapus â'r sefyllfa bresennol. Mae cyrff y GIG yn rhwystredig gyda'r cyflwyniad araf a phroblemau gyda systemau sydd ganddynt ac yn pryderu am atebolrwydd dryslyd. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn rhwystredig oherwydd diffyg

cyfarwyddyd gan y GIG ehangach. Y rhwystredigaeth fwyaf yw bod cofnodion electronig yn arwain at ofal a chanlyniadau gwell i gleifion ond mewn gormod o achosion, mae'r GIG yn dibynnu ar gofnodion papur hen ffasiwn.

**14.** Roedd y Pwyllgor wedi gobeithio gweld bod cyflymder y newid wedi codi, ond nid oedd hyn i'w weld. Cyhoeddwyd derbyniad Prif Weithredwr GIG Cymru o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Mawrth 2018, a chyfeiriodd yn ei lythyr at y 18 mis o waith a wnaed. Mae hyn yn awgrymu y casglwyd y dystiolaeth gychwynnol tua 2 flynedd yn ôl – mis Medi 2016.

**15.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod, er bod yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith, bod Llywodraeth Cymru a'r GIG ehangach yn cymryd camau i ddechrau mynd i'r afael â llawer o'r problemau. Croesawn yr ymateb cadarnhaol i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol. Serch hynny, rydym yn dal i bryderu am gyflymder a brys y gweithredu gan mai prin oedd y dystiolaeth o newid a welsom.

**16.** Er ein bod yn croesawu'r ymateb cadarnhaol i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, mae'r Pwyllgor o'r farn bod ein hadolygiad o wybodeg yn fusnes anorffenedig. O gofio argymhellion manwl adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a rhai'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal, nid ydym yn gwneud argymhellion manwl ein hunain i Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, rydym yn cymeradwyo'n gryf yr argymhellion presennol.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod y Pwyllgor yn derbyn diweddariadau chwe misol gan Lywodraeth Cymru ar gynnydd wrth weithredu'r argymhellion digidol yn yr Adolygiad Seneddol ac adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn ein galluogi i ailystyried y materion hyn yn ddiweddarach.

**Argymhelliad 2.** Roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu'n fawr am y dystiolaeth a glywsom ar fethiannau systemau, seilwaith a chydnerthedd. O ystyried tystiolaeth ddiweddar o fethiannau pellach ers i ni dderbyn tystiolaeth, hoffem gael sicrwydd pellach gan Lywodraeth Cymru bod y systemau yn gadarn. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno amserlen eglur ar gyfer sefydlogi seilwaith digidol GIG Cymru.

**17.** Clywodd y Pwyllgor anghytuno ynghylch rhinweddau'r defnydd o gyfrifiadura Cwmwl yn hytrach na chanolfannau data. Ni welsom ddigon o dystiolaeth o lefel ddofn o ddealltwriaeth Dechnolegol neu Ddigidol a phrin yw'r dystiolaeth bod manteision cyfrifiadura Cwmwl yn cael eu nodi'n llawn ac nid yw'n ymddangos bod unrhyw ddealltwriaeth o'r cyfleoedd a gynigir gan y Cwmwl. Ni chlywsom unrhyw dystiolaeth sylweddol o Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn manteisio ar wasanaethau Cwmwl.

**Argymhelliad 3.** Yn y trafodaethau ar y defnydd o gyfrifiadura Cwmwl ac effaith methiannau diweddar, roedd yn peri pryder mawr iawn, pan ymddengys bod gan lawer o systemau defnyddwyr berfformiad ac amser gweithredol cadarn, bod GIG Cymru yn cael trafferth yn rhedeg ei ganolfannau data ei hun gydag 21 o fethiannau yn ystod 6 mis cyntaf 2018 - un methiant bob 9 diwrnod. Mae'r Pwyllgor yn argymell adolygiad o'r gallu uwch arweinyddiaeth o ran set sgiliau a llywodraethu yng Ngwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Thîm Digidol ehangach y GIG.

## Strategaeth

**18.** Mae'r weledigaeth lefel uchel ar gyfer Gwybodeg y GIG yn yr ardaloedd a archwiliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn eglur. Yn y bôn, bydd gan y GIG gofnod cleifion electronig sy'n cynnwys llawer o wahanol systemau sy'n siarad â'i gilydd, yn hytrach nag un system sy'n ceisio gwneud popeth. Fodd bynnag, er gwaethaf rhai datblygiadau diweddar, mae angen mwy o gyfarwyddyd ac eglurder o ran dull "Unwaith i Gymru" o ddatblygu a chyflwyno'r systemau a fydd yn mynd i mewn i gofnod claf.

**19.** Er bod y weledigaeth yn eglur, mae braidd yn hen erbyn hyn. Pennwyd y weledigaeth ar gyfer y claf electronig yn rhan o'r strategaeth Hysbysu Gofal Iechyd yn 2003. Mae byd gwybodeg a thechnoleg ddigidol wedi symud ymlaen yn y 15 mlynedd ers hynny. Roeddem yn falch o weld felly y bydd Llywodraeth Cymru mewn ymateb i argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol yn comisiynu adolygiad o'i dull o gynllunio seilwaith a systemau yn rhan o flaengynllun gwaith Bwrdd Rheoli Gwybodeg GIG Cymru. Bydd hyn yn cynnwys datblygu dealltwriaeth o'r hyn sydd ar gael ar y farchnad ar hyn o bryd ac arfer gorau.

**20.** Mae'n bwysig bod unrhyw adolygiad strategol yn ystyried y ddwy agwedd ar y ddealltwriaeth hon – yr hyn sydd ar gael ar y farchnad ac arfer gorau. Fel yr ydym yn esbonio isod, efallai nad dibyniaeth bresennol GIG Cymru ar yr economi gymysg ar gyfer darparu meddalwedd GIG yw'r dull strategol gorau.

**21.** Adroddodd yr Archwilydd Cyffredinol bod y GIG wedi cytuno ar ddiffiniad newydd o "Unwaith i Gymru". Fodd bynnag, nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod y diffiniad wedi datrys y tensiynau a'r anghytuno sylfaenol. Clywsom dystiolaeth gymysg o ran a oedd cytundeb eglur a chyd-ddealltwriaeth erbyn hyn ynghylch y cydbwysedd rhwng systemau Cymru gyfan a disgresiwn lleol yn seiliedig ar safonau cyffredin. Rhoddodd rhai tystion bwyslais ar safonau cyffredin tra bod eraill yn canolbwyntio ar yr angen am systemau mwy gorfodol ledled Cymru. Nid oedd yn eglur i ni a oedd y tensiynau rhwng y ddau wedi eu datrys. Roedd tystiolaeth gan Fyrddau Iechyd yn adlewyrchu brwdfrydedd am safonau cyffredin

tra bod Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn canolbwyntio mwy ar gyflwyno systemau sengl ledled Cymru. Credwn felly bod mwy o waith i Lywodraeth Cymru a chyrff GIG ei wneud i roi sylw llawn i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch egluro'r hyn y mae "Unwaith i Gymru" yn ei olygu yn ymarferol.

**22.** Clywodd y Pwyllgor lawer o dystiolaeth am ddiffyg blaenoriaethu strategol eglur. Galwodd argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol am flaenoriaethu mwy eglur. Adleisiwyd yr alwad hon yn yr Adolygiad Seneddol, a alwodd am adolygiad "aros, dechrau, cyflymu" o wybodeg.

**23.** Roedd yn ymddangos bod yr holl dystion yn cydnabod y gofynnwyd i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wneud gormod gyda'i adnoddau presennol a bod angen blaenoriaethau mwy eglur arno. Roeddem yn falch o glywed gan dystion bod y Bwrdd Rheoli Gwybodeg Cenedlaethol (NIMB) yn rhoi mwy o bwyslais ar flaenoriaethu erbyn hyn mewn cynllun gwybodeg cenedlaethol ar gyfer 2018 - 19. Fe'n hysbyswyd hefyd y byddai blaenoriaethu yn nodwedd allweddol o gynllun tair blynedd o 2019 - 20. Fodd bynnag, er bod llawer o bwyslais ar yr angen am flaenoriaethau mwy eglur ar systemau TGCh, rydym yn bryderus bod trafodaeth hefyd ynghylch cyflwyno systemau newydd, yn ymwneud â mynediad i feddygon teulu, er enghraifft. Yn gyffredinol, roedd y tystion yn cael trafferth yn cyflwyno pethau y dylai Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru roi'r gorau iddi eu gwneud.

**24.** Er ein bod yn croesawu'r camau i'r cyfeiriad cywir trwy'r NIMB, nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod y GIG yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, wedi deall yn llwyr yr angen am benderfyniadau anodd am flaenoriaethau. Mae'n rhaid i'r GIG wynebu'r realiti, yn absenoldeb newid sylweddol i'r cyllid ar gyfer gwybodeg y GIG, bod yn rhaid i flaenoriaethu olygu rhoi'r gorau i wneud pethau. Gallai hynny helpu Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i gael rhai prosiectau dros y llinell, fel y'i disgrifiwyd gan Brif Weithredwr y GIG. Ond mae blaenoriaethu yn golygu'n anochel oedi prosiectau nad ydynt yn flaenoriaeth, neu beidio â'u cychwyn hyd yn oed. Nid yw blaenoriaethu yn fwled arian ac mae'n dal i olygu y gallai gymryd blynyddoedd lawer eto i gofnod cleifion electronig gael ei gyflwyno.

**25.** Ein pryder allweddol y bydd systemau allweddol yn rhy hen erbyn yr adeg y caiff cofnod cleifion electronig llawn ei sefydlu, heb newid sylweddol. Yn ystod ein sesiynau tystiolaeth, trafododd Aelodau sut y mae technoleg yn symud ymlaen, er enghraifft, gyda chwmnïau preifat yn cynnig mynediad ar-lein at feddygon teulu o fewn 20 munud ar ddyfeisiau symudol am ffi gymharol fach. I'r gwrthwyneb, fel y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei gwneud yn eglur, nid yw cymhwysiad Meddygon Teulu GIG Cymru, Fy Iechyd Ar-lein, yn cynnig yn agos at y manteision y'i sefydlwyd i'w cynnig. Er bod trafodaethau ynglŷn â gwella Fy Iechyd Ar-lein,

mae'n anodd gweld sut y bydd y rhain yn cael eu cyflawni o fewn cyfnod rhesymol heb ychwanegu at restr flaenoriaeth sydd eisoes yn llawn.

## Cyllid

**26.** Cydnabu Prif Weithredwr GIG Cymru yn ei dystiolaeth fod cyllid yn ffactor cyfyngu sylweddol. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn awgrymu bod gwariant ar TGCh ar draws y GIG wedi bod yn gostwng - gyda gostyngiadau i gyllideb graidd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a gwariant ar TGCh gan gyrff GIG unigol. Amcangyfrifodd yr Archwilydd Cyffredinol bod y GIG yn ei gyfanrwydd yn gwario llai na 2% o'i gyllideb ar TGCh. O fewn cyllidebau Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, cyfran fach (10%) o'i gyllideb sydd ar gyfer datblygu systemau newydd.

**27.** Roedd yn amlwg o'r dystiolaeth bod angen gwneud penderfyniadau anodd o ran a ddylid darparu'r arian ychwanegol sylweddol sydd ei angen i wireddu'r weledigaeth a gweithio gyda'r GIG i gryfhau cynllunio ariannol ar y cyd ar gyfer gwybodeg, a sut. Rydym yn gwybod mai £484 miliwn yn ogystal â chyllidebau presennol yw amcangyfrif bras y gost o wireddu'r weledigaeth ym mhob corff GIG a chyfraniad Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru at systemau Cenedlaethol, gyda chyfalaf o £195 miliwn a refeniw o £288 miliwn. O'r £484 miliwn hwn, dywedir bod Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru angen £196 miliwn a bod Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG angen y gweddill. Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol i gynnal dadansoddiad cost a budd llawn o'r buddsoddiad. Mae hyn yn gysylltiedig ag adolygiadau ehangach o'r dull cyffredinol o ymdrin â gwaith dylunio a blaenoriaethu seilwaith a systemau.

**28.** Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod strategaeth eglur ar gyfer Cofnod Cleifion Electronig Llywodraeth Cymru, sef datblygu systemau ar wahân gan nifer o gyflenwyr. Er bod hwn yn ddull dealladwy ddegawd yn ôl (pan ddechreuwyd y rhaglen) ceir dau ffactor y mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn amdanynt:

a. Bu newidiadau cadarnhaol enfawr i faes datblygu meddalwedd dros y 10 mlynedd ddiwethaf - mae'r prosesau a'r offer ar gyfer creu meddalwedd wedi datblygu'n sylweddol erbyn hyn

b. Wrth i'r GIG ddod yn fwyfwy dibynnol ar ei dechnoleg ddigidol, ni all hyn droi wedyn yn ddibyniaeth ar y sector preifat. Gall creu ein systemau ein hunain fod yn well ateb na dim ond eu prynu trwy ymarferion caffael mawr.

**29.** Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo eto i ddarparu cyllid ychwanegol sylweddol eto ac o gofio y lluniwyd yr amcangyfrif hwn yn 2016, mae'n ymddangos bod diffyg brys o ran gwneud penderfyniad i wneud hynny. Mae angen eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch a yw'r amcangyfrif bras yn lledgywir, ac roedd y tystion i ni eu holi am y mater o'r farn ei fod, a ph'un a fydd adnoddau sylweddol yn cael eu neilltuo a dros ba gyfnod amser. Clywsom sylwadau cadarnhaol am y £10 miliwn mewn cyfalaf a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer TGCh y GIG yn 2017-18. Ac eto mae'r amcangyfrif yn dangos y bydd angen llawer mwy na'r swm hwn y flwyddyn. Clywsom syniadau am ddefnyddio potiau o gyllid arloesi a'r Gronfa Gofal Integredig. Rydym yn bryderus ei bod yn ymddangos bod hyn yn fater o ymdrin â'r ymylon pan fo angen gwneud penderfyniad llawer mwy sylfaenol ynghylch neilltuo symiau sylweddol o arian, neu ail-ystyriaeth sylfaenol o'r uchelgais a'r amseriadau, erbyn hyn. O gofio bod llawer o brosiectau Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru naill ai ar ei hôl hi neu'n gweithredu yn unol ag amserlenni diwygiedig, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried a all fod â hyder yng nghymhwysedd a gallu Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru fel y mae wedi ei gyfansoddi ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 4.** Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi'i or-ymestyn ar hyn o bryd, ac mae gwella yn golygu llawer mwy na thywallt mwy o arian i mewn i'r sefydliad presennol, sy'n annhebygol o gyflawni canlyniadau sylweddol wahanol. Rydym yn argymell y dylai unrhyw gyllid ychwanegol a ddyrennir i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru fod yn gysylltiedig ag ad-drefnu i gyflawni'r gwelliannau sy'n ofynnol.

**30.** Ailadroddwn y pwynt a wnaed yn gynharach nad ydym yn credu y gellir cyflwyno cofnod cleifion electronig mewn amser rhesymol heb adnoddau ychwanegol sylweddol. Pan fyddwn yn dweud adnoddau ychwanegol, nid ydym o reidrwydd yn golygu arian newydd ar gyfer y GIG a fyddai'n mynd i wasanaethau cyhoeddus eraill fel arall. Un rhesymeg allweddol ar gyfer y cofnod cleifion electronig yw ei fod yn gwneud gwasanaethau yn fwy effeithlon ac yn lleihau camgymeriadau, sy'n gostus i'w cywiro. Mae angen i'r GIG yn ei gyfanrwydd gymryd golwg gyfunol mwy hirdymor o fuddsoddiad mewn gwybodeg, ar sail buddsoddi i arbed.

**31.** Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gadw meddwl agored iawn wrth ystyried yr opsiynau ariannu ar gyfer Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Mae'n amlwg bod angen symud oddi wrth CapEx tuag at fwy o gyllid refeniw. Hefyd, rydym o'r farn bod Digidol / TG yn dal i gael eu hystyried yn ganolbwynt cost, yn hytrach na chyfle i wella gofal a phrofiad cleifion, a lleihau'r cyllidebau Gweinyddol a Chlerigol cyffredinol.

## Llywodraethu ac arweinyddiaeth

**32.** Mae'r gwendidau sylweddol yn nhrefniadau llywodraethu Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, gan gynnwys diffyg craffu annibynnol ac adroddiadau anghytbwys ar gynnydd, yn peri pryder sylweddol i ni. Dechreuodd y Pwyllgor yr ymchwiliad hwn yn ddryslyd ynghylch y trefniadau llywodraethu ar gyfer Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ac fe'i gorffennwyd yn dal i fod yn ansicr ynghylch sut y maen nhw'n gweithio. Ceir trefniant cymhleth lle mae Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn cynnal Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ac yn atebol am agweddau penodol ar ei weithgarwch. Ond mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn atebol i Lywodraeth Cymru am ei berfformiad a'i ddarpariaeth o wasanaethau gwybodeg.

**33.** Mae'n amlwg bod y trefniadau hyn yn achosi dryswch yn ymarferol, yn enwedig lle ceir digwyddiadau difrifol gyda system. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth nad yw uwch weithredwyr y GIG yn siŵr pwy sy'n atebol am Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru na sut y cânt eu dwyn i gyfrif. Er i sawl un ohonynt sôn am yr NIMB, rydym yn deall mai prif swyddogaeth NIMB yw dangos arweinyddiaeth gyfunol yn hytrach na chraffu yn benodol a dwyn Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i gyfrif. Er gwaethaf eu hanfodlonrwydd amlwg ynghylch cynnydd, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod gweithredwyr bwrdd iechyd yn craffu ar waith Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (yn wir, roedd dryswch yn eu plith ynghylch sut y byddent yn gwneud hyn). Mae NIMB yn cwmpasu cyflwyno systemau TGCh newydd, sy'n rhan fach yn unig o'r hyn y mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn ei wneud. Rydym ni o'r farn bod angen trefniant symlach a mwy tryloyw.

**34.** Roedd tystion yn ymddangos yn amharod i amddiffyn neu feirniadu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Er hynny, roedd cydnabyddiaeth o angen am newid. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymrwymiad i adolygu a diweddaru trefniadau llywodraethu Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru mewn ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol a'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl â diddordeb mwy o fanylion am y trefniadau newydd a sut y byddant yn gweithio. Cytunwn yn llwyr â'r Archwilydd Cyffredinol y dylent sicrhau mwy o dryloywder a chraffu annibynnol na'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd. Rydym yn rhagweld y gallai unrhyw lywodraethu newydd, trylwyr ddatgelu mwy o broblemau nag y mae'n eu datrys yn y byrdymor.

**35.** O ran tryloywder, rydym yn cytuno bod angen i unrhyw drefniadau newydd sicrhau adroddiadau cytbwys ar gynnydd o ran darparu systemau gwybodeg. Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad nad oedd adroddiadau Gwasanaeth

Gwybodeg GIG Cymru yn gytbwys a'u bod yn or-gadarnhaol. Rydym yn cytuno ac ar adegau yn ystod y dystiolaeth clywsom ddarlun anghytbwys tebyg. Fe'n hysbyswyd bod Cymru ymhlith goreuon y byd ac ar y blaen i rannau eraill o'r DU. Cawsom restrau o gyflawniadau heb gyd-destun. Wrth gwrs, rydym yn deall yr awydd a'r angen i ddathlu llwyddiannau a chyflawniadau. Ond ar adegau, roedd yn teimlo fel pe bai rhannau o'r dystiolaeth yn mynd yn gwbl groes i'r darlun a gyflwynwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ac nid oedd yn cyd-fynd chwaith â'r hyn y mae aelodau'r Pwyllgor yn ei glywed yn rheolaidd gan staff y GIG.

**36.** Ceir dryswch sylweddol ynghylch arweinyddiaeth gwybodeg yng Nghymru a dywedwyd yn ein tystiolaeth bod gan nifer o unigolion swyddogaethau a chyfrifoldebau arweinyddiaeth. Ceir uwch swyddogion yn Llywodraeth Cymru sydd â swyddogaethau arweinyddiaeth. Ceir Prif Swyddog Gwybodaeth GIG Cymru a Phrif Swyddog Gwybodaeth Glinigol GIG Cymru. Hefyd ceir Prif Weithredwr arweiniol ar gyfer TGCh, sy'n Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Felindre, sy'n cynnal Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Cydnabu Prif Weithredwr GIG Cymru yn ei dystiolaeth i ni fod posibilrwydd o ddryswch.

**37.** Rydym hefyd o'r farn bod lle i gryfhau gallu Llywodraeth Cymru a chyrff GIG i gyfarwyddo, herio a gweithredu fel cleient deallus i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Ni chawsom ein hargyhoeddi bod gan uwch swyddogion Llywodraeth Cymru ac uwch weithredwyr y GIG y ddealltwriaeth dechnegol fanwl sydd ei hangen i roi cyfarwyddyd eglur i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ac i herio ei berfformiad a'i benderfyniadau.

**38.** Wrth egluro arweinyddiaeth genedlaethol, byddem yn cymeradwyo safbwynt yr Archwilydd Cyffredinol bod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod swyddogaethau Prif Swyddog Gwybodaeth GIG Cymru a Phrif Swyddog Gwybodaeth Glinigol GIG Cymru yn meddu ar awdurdod ac amlygrwydd digonol, o ystyried eu bod wedi'u lleoli mewn asiantaeth cynnal nad yw'n cyd-fynd â strwythur arweinyddiaeth gyffredinol y GIG.

**39.** Rydym hefyd yn pryderu am arweinyddiaeth ar lefel bwrdd ac yn cytuno â chanfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol bod lle i gryfhau hyn. Rydym yn nodi bod GIG Cymru y tu ôl i'r sector preifat o ran cael cynrychiolaeth i arbenigedd gwybodeg a TGCh ar lefel y Bwrdd. Roedd Llywodraeth Cymru yn derbyn argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol ac mae'n ystyried rhinweddau cynrychiolaeth ar y bwrdd wrth iddi ymateb i ymgynghoriad ar ei Phapur Gwyn "Gwasanaethau sy'n Addas i'r Dyfodol". Roeddem yn siomedig ag amharodrwydd byrddau iechyd i ystyried yr angen am fwy o gynrychiolaeth o arbenigedd gwybodeg ar lefel bwrdd. Rydym yn deall y pwynt a wnaed gan Brif Weithredwr y GIG, y gall meysydd eraill gynnig dadl dros fwy o gynrychiolaeth ar lefel bwrdd a

bod perygl bod ychwanegu mwy o bobl yn arwain at fwrdd sy'n rhy fawr. Fodd bynnag, mae gwybodeg mor hanfodol i ddyfodol gofal iechyd ein bod ni o'r farn bod y ddadl dros gynrychiolaeth gryfach ar y bwrdd yn rymus iawn erbyn hyn.

**40.** Bydd arweinyddiaeth yn y maes Digidol / TG bob amser yn her, o ystyried cymhlethdod y pwnc a chyflymder y newid. Bydd hyd yn oed sefydliadau sy'n perfformio'n dda yn ei chael yn anodd cystadlu am yr arweinyddiaeth orau. Ar draws Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Llywodraeth Cymru, credwn fod angen eglur am welliant i Arweinyddiaeth. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried ychwanegu rhwng 5 a 10 o uwch arweinwyr newydd at Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, ar sail tymor canolig efallai. Dim ond y lefel hon o newid arweinyddiaeth sy'n debygol o ddatrys y problemau diwylliannol

## Cyflwyno systemau newydd

**41.** Yn ystod ein hymchwiliad, cytunodd Llywodraeth Cymru i fabwysiadu egwyddorion dylunio Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth o dan fwrdd safonau technegol newydd i Gymru. Mae'r safonau a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar egwyddorion dull Agile o ddatblygu gwasanaethau digidol. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod manteision posibl i'r dull hwn, sy'n cynnwys pwyslais cryf ar anghenion defnyddwyr a dull cam-wrth-gam mwy ailadroddol o ddatblygu cymwysiadau. Fodd bynnag, rydym yn rhannu pryderon Llywodraeth Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol bod angen newidiadau ehangach i wneud i'r dull hwn weithio.

**42.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym am ei phryderon efallai fod y dull o ymdrin ag achosion busnes, gan ddefnyddio'r model 5 achos, yn rhy anhyblyg gan ei fod yn golygu nodi popeth ymlaen llaw. Yn wir, byddai'n ymddangos bod hyn yn mynd yn groes i ddull ailadroddus. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud, ochr yn ochr â chydweithwyr yn y GIG yn Lloegr a chyda'r Trysorlys yn Llundain, o ran sut mae Llywodraeth Cymru yn addasu ei phroses achos busnes er mwyn caniatáu iddi fanteisio i'r eithaf ar y dull digidol a'r dull Agile o ymdrin â datblygiadau.

**43.** Mae'r dull Agile hefyd yn dibynnu'n sylfaenol ar ymgysylltiad defnyddwyr systemau, a'r clinigwyr yw'r rhain fel rheol yn achos systemau'r GIG. Adroddodd yr Archwilydd Cyffredinol bod staff Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn teimlo rhwystredigaeth ynghylch yr anawsterau y maent yn eu cael yn cael clinigwyr i ymgysylltu â'r gwaith o ddylunio a phrofi systemau. Mae'r Pwyllgor yn nodi datblygiad diweddar rhwydwaith o Brif Swyddogion Gwybodaeth Glinigol ar draws y GIG. Gobeithiwn y bydd hyn yn darparu'r arweinyddiaeth glinigol sydd ei hangen ar frys ar yr agenda gwybodeg.

**44.** Fodd bynnag, ni ddylai grŵp bach o glinigwyr â buddiant fod yn gyfrifol am arweinyddiaeth. Ceir her fwy o ran ymgysylltu clinigwyr â chyfleoedd a phwysigrwydd cymryd rhan mewn gwaith i ddatblygu a phrofi systemau. Ceir angen eglur hefyd i gyrff GIG ddod o hyd i ffyrdd o ryddhau amser clinigol, fel y gall clinigwyr wneud y gwaith pwysig hwn heb deimlo eu bod yn esgeuluso eu gwaith arferol.

**45.** Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn codi pryderon ynghylch gwaith cynllunio'r gweithlu Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ac yn amlygu rhai o'r anawsterau y mae'r Gwasanaeth yn eu cael yn recriwtio a chadw datblygwyr TGCh profiadol. Adroddodd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ei fod wedi datblygu strategaeth gweithlu erbyn hyn a'i fod yn rheoli anawsterau recriwtio trwy weithio'n agos â sefydliadau addysg. Fodd bynnag, rydym yn dal i bryderu am fylchau yng nghapasiti a galluoedd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i gyflawni. Pan ofynnwyd i Brif Weithredwr GIG Cymru a oedd problem gyda gallu Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, prin oedd y sicrwydd y rhoddodd ei ateb i ni fod ganddo hyder yng ngalluoedd y Gwasanaeth.

**46.** Mae gennym rywfaint o gydymdeimlad â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru o ran recriwtio gan eu bod yn gweithredu o fewn cyfyngiadau graddfeydd cyflog GIG Cymru ac ni allant ddefnyddio cymhellion ariannol i ddenu staff digidol. Ceir galw sylweddol am staff technegol medrus, sy'n sefyllfa nad ydym yn disgwyl iddi newid am gryn amser. Mae gwaith arall y Pwyllgor a'r Cynulliad wedi tynnu sylw at hyn ar draws y sector preifat. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol ei bod yn ymddangos bod gan rai o'r cyrff Sector Cyhoeddus eraill yn ne Cymru ddull llawer mwy llwyddiannus. Er enghraifft, yn anecdotaidd, rydym yn deall bod y DVLA a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, y mae'r ddau ohonynt yn cyflogi timau mawr o staff Digidol / TG, wedi bod yn rhagweithiol yn eu hymgyrchoedd recriwtio wrth ddenu ymgeiswyr i swyddi digidol. Rydym yn amlygu mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn y problemau diwylliannol hirsefydlog yng Ngwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Rydym yn pryderu y gallai'r anawsterau yn cyflogi staff fod yn rhannol gysylltiedig â'r problemau diwylliannol dwys hyn.

**47.** Nid yw'n gredadwy tybio nad yw'r niwed i enw da sy'n deillio o feirniadaeth ddiweddar o Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi effeithio ar ba mor ddeniadol yw'r Gwasanaeth fel cyflogwr mewn marchnad ar gyfer sgiliau technegol a fydd bob amser yn gystadleuol iawn. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid ystyried ateb mwy radical. Nid yw llawer o waith Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn benodol i'r GIG (Mae hyn yn cynnwys seiberddiogelwch, cyfrifiadura Cwmwl a phrosesau datblygu meddalwedd), mae llawer o'r gwaith hwn yn cael ei wneud ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn enwedig yn y

de, yr ydym yn credu sydd â swyddogaethau Digidol uchel eu parch eisoes, fel y rhai yn y DVLA a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn ceisio cynyddu ei waith gyda chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys y rhai o Lywodraeth y DU. Gallai'r dull hwn weithio ar nifer o lefelau, o rannu arferion recriwtio da i greu Gwasanaeth Digidol Llywodraeth a allai weithio ar draws asiantaethau lluosog.

**48.** Rydym yn bryderus ynghylch ansawdd rhai systemau cenedlaethol allweddol ac mae'n aneglur oherwydd y diffyg data monitro a ydynt yn sicrhau'r manteision a fwriedir. Rydym yn nodi bod y tystion yn dweud bod Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn cynnig darlun mwy cytbwys erbyn hyn wrth adrodd i'r NIMB, gan gynnwys mwy o gyd-destun ar y defnydd gwirioneddol o systemau a'u cyflwyno. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at weld adroddiadau cytbwys ar y manteision yn y parth cyhoeddus.

**49.** Tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw at bryderon ynghylch ansawdd gwybodaeth reoli sy'n cael ei chynhyrchu gan y systemau cenedlaethol. Roedd uwch swyddogion GIG a oedd â phrofiad o weithio yn Lloegr yn awyddus i bwysleisio bod ganddynt fynediad at wybodaeth well, ar ffurf "dangosfwrdd" yn gyffredinol, nag oedd ar gael yng Nghymru. Dywedodd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wrthym fod y problemau yn amrywio o system i system ond bod gwaith parhaus yn cael ei wneud i wella'r wybodaeth reoli ac i ddatblygu adroddiadau safonol. Fodd bynnag, dywedodd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru hefyd bod bwlch ar draws y GIG o ran y sgiliau sydd eu hangen i lunio adroddiadau gwybodaeth reoli defnyddiol. Heb adrodd gonest, bydd yn amhosibl gwella llywodraethu ac, yn wir, perfformiad cyffredinol.

## Methiannau data a chydnerthedd

**50.** Mae'r Pwyllgor yn bryderus dros ben ynghylch y dystiolaeth a gafwyd am fethiannau data a chydnerthedd. Cafwyd 21 o fethiannau mewn systemau cenedlaethol rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2018. Roeddem yn arbennig o bryderus clywed gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre am yr effeithiau negyddol ar brofiad y claf ac ar ysbryd y staff. Fe'n sicrhawyd gan dystion Llywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre nad oedd unrhyw gleifion wedi dioddef unrhyw niwed. Holwyd gennym sut yr oeddent yn gwybod nad oedd y digwyddiadau hyn wedi achosi niwed yn enwedig o ran cleifion canser lle gall prydlondeb penderfyniadau ac ymyriadau fod yn hanfodol. Esboniodd Prif Weithredwr y GIG bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod yr effaith ar gleifion yn cael ei deall a'i nodi yn fwy llawn.

**51.** Clywsom fod Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Llywodraeth Cymru yn cydnabod pryderon cyrff a chlinigwyr y GIG ac yn cymryd camau i unioni pethau. Clywsom fod rhywfaint o'r seilwaith yng nghanolfannau data'r GIG dros saith oed a bod angen ei newid. Dywedodd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ei fod wedi bod yn gweithio ar ddisodli'r seilwaith hwn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Hefyd, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid o £1.32 miliwn i uwchraddio seilwaith WLIMS a chafodd y drefn storio data ei huwchraddio, gan ddisodli caledwedd sydd dros saith mlwydd oed. Yn y cyfamser, mae seilwaith Cwmwl yn cael ei fabwysiadu fel mater o drefn mewn mannau eraill ac mae GIG Cymru ar ei hôl hi. Mewn llythyr dyddiedig 29 Awst 2018, ysgrifennodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru at y Pwyllgor yn nodi mai £5.5 a £6 miliwn fyddai costau uwchraddio'r seilwaith. Rydym yn pryderu y gellid ystyried unrhyw fuddsoddiad o'r math hwn fel taflu arian da ar ôl drwg, pan mai'r dewis arall yw newid y system bresennol i seilwaith Cwmwl modern.

**52.** Derbyniwyd tystiolaeth gennym hefyd o adroddiadau Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru heb eu cyhoeddi bod angen i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru roi mwy o bwyslais ar waith cynnal a chadw rheolaidd. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y bydd hyn yn ddrud o ran adnoddau ac y bydd yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth o brosiectau newydd. Rydym yn pryderu bod yn rhaid i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru daro cydbwysedd amhosibl rhwng cynnal seilwaith a chyflwyno systemau newydd. Mae'n sefyllfa heb fanteision sy'n arwain at fwy o oedi cyn cael systemau newydd y mae wir eu hangen neu risgiau o ddigwyddiadau a methiannau difrifol. Talu'r hen a dwyn y newydd yw hyn i bob pwrpas ac nid yw'n sefyllfa dderbyniol na chynaliadwy.

**53.** Rydym yn cael trafferth yn deall sut mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn cael ei hun yn y sefyllfa hon lle nad yw wedi gwneud cynlluniau priodol ar gyfer cynnal a chadw ei seilwaith yn briodol. Mae'n symptomatig o bryder ehangach sydd gan y Pwyllgor yn ystod y gwaith hwn – wrth i ni ddechrau craffu ar un maes, gwelwn fod cwestiwn arall, yr un mor ddifrifol yn codi mewn maes arall. O ganlyniad, rydym yn poeni mai dim ond wedi crafu'r wyneb y mae ein gwaith craffu o ran problemau Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

**54.** Clywodd y Pwyllgor bod cyrff GIG yn gallu rhoi eu cynlluniau parhad busnes ar waith, a oedd yn cyfyngu ar effeithiau'r methiannau. Fodd bynnag, roedd rhai gwendidau yn y modd yr oedd cyrff GIG, Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn cyfathrebu yn ystod methiannau data. Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod enghraifft a nodwyd o arfer da o ran defnydd BIP Abertawe Bro Morgannwg o Gyd-egwyddorion Rhyngweithredu Gwasanaethau Brys (JESIP). Mae llythyr diweddar Llywodraeth Cymru at y Pwyllgor yn nodi bod yr

egwyddorion wedi cael eu rhannu ymysg eraill gan ofyn iddynt ystyried eu defnyddio yn eu sefydliadau i gefnogi parhad busnes.

**55.** Cafodd y Pwyllgor ei ddychryn gan rywfaint o'r dystiolaeth a glywodd am y system ganser. Fe'n hysbyswyd bod gan CaNISC sgôr risg coch gan fod Microsoft wedi rhoi'r gorau i ddarparu cefnogaeth ar gyfer y system yn 2014. Tynnodd tystion sylw at bryderon ei bod yn risg seiberddiogelwch gan fod rhagor o waith i'w wneud i lenwi'r bylchau diogelwch a rhoi "patsys" ar waith. Mae'n gadarnhaol bod y broses ar waith ar gyfer disodli CaNISC. Ond mae'r Pwyllgor yn pryderu ei bod wedi cymryd cyhyd i gyrraedd y cam o gael achos busnes, pan fo'n rhaid ei bod wedi bod yn eglur amser maith yn ôl bod angen ei ddisodli.

**56.** Hoffai'r Pwyllgor weld CANISC yn cael ei ddisodli ar frys a chyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. O ystyried y statws risg coch a'r materion seiberddiogelwch, ceir dadl gref dros gyflymu'r gwaith os yw'n bosibl. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod y byddai hyn yn gofyn am ystyriaeth ofalus o'r canlyniadau dilynol.

**57.** Mewn sawl ffordd, roedd y dystiolaeth a dderbyniwyd gennym ar fethiannau gwasanaeth a chydnerthedd yn ficrocosm o'r darlun ehangach. Mae cyllid yn brin, ac mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn cydbwyso'r blaenoriaethau sy'n cystadlu o gynnal seilwaith tra dan bwysau i gyflwyno systemau newydd. Ceir pryderon dwys ynghylch y diffyg eglurder am atebolrwydd a chyfrifoldeb pan fydd pethau'n mynd o'i le ac unioni pethau eto. Clywsom am oediadau yng Ngwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, yn yr achos hwn wrth gynhyrchu adroddiadau ar y digwyddiadau. Clywsom hefyd am anawsterau weithiau o ran cael cyrff GIG i ymgysylltu â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wrth ganfod achosion problemau. Rydym yn dal i bryderu nad yw'r problemau yn ymwneud â methiannau system wedi cael eu datrys yn llawn eto. Adroddodd gohebiaeth ddiweddar gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro y bu digwyddiad arall ym mis Awst 2018, yn para am 3 diwrnod.